| Enw’r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**General Certificate of Secondary Education**

631/51

**TGAU**

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU CYMHWYSOL**

**(DWYRADD)**

A.M. DYDD MAWRTH, 24 Ionawr 2006

(2 awr)

| **Arholwr yn unig** | |
|---|---|
| **Cyfanswm Marciau** | |

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Adnoddau i’w ddefnyddio gyda Chwestiwn 9 i 11.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a’ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag a ddarperir yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le i’ch ateb, cewch barhau â’ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag a ddarperir.*

*Mae'r cwestiynau yn y papur hwn wedi eu seilio ar gyd-destun trefnydd teithiau o'r enw 'Teithiau Teg'.*

**1.** Mae *Teithiau Teg* yn defnyddio meddalwedd Cyhoeddi Bwrdd Gwaith *(DTP)* i gynhyrchu rhai o'u dogfennau. Ticiwch **un** blwch ym **mhob** achos i ddangos pa nodwedd allai gael ei defnyddio i gwblhau'r tasgau canlynol yn y ffordd **orau**:

*(a)* Rhoi patrwm addurnol o gwmpas ymyl tudalen. [1]

- ☐ 3D
- ☐ Unioni
- ☐ Border
- ☐ Tablu

*(b)* Dileu'r weithred ddiwethaf. [1]

- ☐ Ail-wneud
- ☐ Dad-wneud
- ☐ Canfod
- ☐ Disodli

*(c)* Ychwanegu delwedd graffig. [1]

- ☐ Cliplun
- ☐ Amlapio testun *(text wrapping)*
- ☐ Postgyfuno
- ☐ Graddliwio

*(ch)* Creu mwy o ofod gwyn rhwng pob llinell o destun. [1]

- ☐ Gwter
- ☐ Mewnoli
- ☐ Amddifadu *(Orphan)*
- ☐ Bwlch rhwng llinellau

*(d)* Creu ail fersiwn unfath *(identical)* o baragraff ond cadw'r un gwreiddiol yr un pryd. [1]

- ☐ Gludo a thorri
- ☐ Torri a gludo
- ☐ Copïo a gludo
- ☐ Copïo a thorri

*(dd)* Caiff gorchmynion am newid testun eu dangos yn aml fel dewislenni neu eiconau ar fariau offer, fel yr un sydd i'w weld isod.




Rhowch **bedwar** newid y gellir eu gwneud i destun gan ddefnyddio dim ond y dewislenni a'r eiconau sydd i'w gweld ar y bar offer hwn. Mae enghraifft wedi'i gwneud i chi.

(i) *Rhifo awtomatig*

(ii) .................................................................................................................................... [1]

(iii) .................................................................................................................................... [1]

(iv) .................................................................................................................................... [1]

(v) .................................................................................................................................... [1]

**2.** Mae ysgrifennydd *Teithiau Teg* yn defnyddio nodweddion ei becyn meddalwedd Cyhoeddi Bwrdd Gwaith *(DTP)* i wirio dogfennau am wallau.

Edrychwch ar yr enghreifftiau o wallau sydd i'w gweld isod ac ar gyfer **pob un** nodwch ba nodwedd fyddai'n dod o hyd i'r gwall. [2]

*(a)* *Rydyn ni'n faalch i dderbyn eich archeb.*

***Math o ddarganfod gwall:*** ..............................................................................................................................

*(b)* *Mae'n flin gennym roi gwybod i chi nad oes lle gwag yn y gwesty cyntaf rydyn chi wedi ei ddewis.*

***Math o ddarganfod gwall:*** ..............................................................................................................................

**3.** Mae *Teithiau Teg* yn cadw gwybodaeth yn ddiogel. Gan ddefnyddio geiriau o'r rhestr isod, lenwch y bylchau yn y paragraff canlynol. [3]
*Peidiwch â defnyddio unrhyw eiriau fwy nag unwaith.*

| | | |
|---|---|---|
| **gwrth firws** | **dyddiedig** | **disg caled** |
| **cyfryngau cadw** | **gyrrwr argraffydd** | **ar-lein** |

Un ffordd o gadw gwybodaeth yn ddiogel ac yn drefnus yw trwy gadw copïau wrth gefn

........................................................................ ac ar wahân. Caiff ffeiliau eu copïo'n gyson i

........................................................................, fel CD ROMau neu ........................................................................ .

Examiner only
*Arholwr yn unig*


**4.** *(a)* Mae *Teithiau Teg* yn defnyddio meddalwedd i *drin a gwella delweddau graffig*. Edrychwch ar y ffordd y mae'r delweddau isod wedi cael eu dangos mewn perthynas â'r testun a defnyddiwch y rhestr o nodweddion isod i'w labelu nhw. [3]
*Defnyddiwch bob nodwedd unwaith yn unig*.

**Gweld trwyddo** **Tu ôl** **Amlapio testun** **Marc dŵr** **Gosodiad *(layout)***



Dewch i weld yr Ynysoedd Dedwydd a mwynhau gwyliau cynnes ac ymlaciol ... ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gall syrffwyr fwynhau'r tonnau cyffrous tra gall y rhai sydd am gymryd pethau'n dawel grwydro o gwmpas y pentrefi pysgota cysglyd neu orwedd o dan yr haul a mwynhau sŵn y tonnau.


Nodwedd 1: ..........................................................................................



Dewch i weld yr Ynysoedd Dedwydd a mwynhau gwyliau cynnes ac ymlaciol ... ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gall syrffwyr fwynhau'r tonnau cyffrous tra gall y rhai sydd am gymryd pethau'n dawel grwydro o gwmpas y pentrefi pysgota cysglyd neu orwedd o dan yr haul a mwynhau sŵn y tonnau.

Nodwedd 2: ..........................................................................................

Dewch i weld yr Ynysoedd Dedwydd a mwynhau gwyliau cynnes ac ymlaciol ... ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gall syrffwyr fwynhau'r tonnau cyffrous tra gall y rhai sydd am gymryd pethau'n dawel grwydro o gwmpas y pentrefi pysgota cysglyd neu orwedd o dan yr haul a mwynhau sŵn y tonnau.



Nodwedd 3: ..........................................................................................


*(b)* Rhowch **ddwy** enghraifft *arall* o'r modd o drin neu wella delweddau graffig. [2]

(i) ..............................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**5.** Rhaid i weithwyr *Teithiau Teg* ddilyn ffyrdd safonol o weithio.

*(a)* Mae'r cwmni'n rhoi canllawiau iechyd a diogelwch i'w staff ar gyfer defnyddio offer cyfrifiadur. Edrychwch ar y ddelwedd isod, a chwblhewch y tabl trwy nodi'r peryglon posibl i iechyd a rhowch fodd addas o atal **pob un** ohonyn nhw. 4 x [2]




| | Perygl Posibl | Dull Atal |
|---|---|---|
| **A** | | |
| **B** | | |
| **C** | | |
| **CH** | | |

*(b)* Mae'r cwmni'n cymryd camau i'w amddiffyn ei hun yn erbyn troseddau cyfrifiadurol.

Enwch **un** drosedd gyfrifiadurol a rhowch **un** dull o'i atal. [2]

Trosedd gyfrifiadurol: ..............................................................................................................

Dull o'i hatal: ..............................................................................................................

# TUDALEN WAG

**6.** Mae *Teithiau Teg* yn defnyddio taenlen i gyfrif cost gwyliau. Mae enghraifft o hon i'w gweld isod.

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ***Costau Gwyliau*** | | | | | | | | |
| 2 | | | | | | | | | |
| 3 | | *Cost Oedolyn* | *Nifer yr Oed-olion* | *Cyfanswm Cost Oedolion* | *Cost Plentyn* | *Nifer y Plant* | *Cyfanswm Cost Plant* | | *Cyfanswm* |
| 4 | *Hediad* | £250.00 | 2 | £500.00 | £100.00 | 3 | £300.00 | | £800.00 |
| 5 | *Tâl ychwanegol* | £30.00 | 2 | £60.00 | £30.00 | 3 | £90.00 | | £150.00 |
| 6 | *Bwyd yn yr awyren* | £10.00 | 1 | £10.00 | £5.00 | 3 | £15.00 | | £25.00 |
| 7 | *Gwesty yr wythnos* | £400.00 | 2 | £800.00 | £200.00 | 3 | £600.00 | | £1,400.00 |
| 8 | *Bws maes awyr* | £25.00 | 2 | £50.00 | £20.00 | 3 | £60.00 | | £110.00 |
| 9 | *Yswiriant* | £120.00 | 2 | £240.00 | £0.00 | 3 | £0.00 | | £240.00 |
| 10 | *Gwib-deithiau* | £300.00 | 2 | £600.00 | £200.00 | 3 | £600.00 | | £1,200.00 |
| 11 | | | | | | Is-gyfanswm | | | £3,925.00 |
| 12 | | | | | | | Tâl cerdyn credyd | 2% | £78.50 |
| 13 | | | | *Cyfanswm Cost y Gwyliau* | | | | | **£4,003.50** |

Edrychwch yn ofalus ar y daenlen uchod ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

*(a)* Rhowch y **golofn** sy'n cynnwys y label *Cost Oedolyn*. .................................. [1]

*(b)* Rhowch y **rhes** sy'n cynnwys y label *Bwyd yn yr Awyren*. .................................. [1]

*(c)* Rhowch y **gell** sy'n cynnwys *Cost Plentyn* ar gyfer *Bwyd yn yr Awyren*. .................................. [1]

*(ch)* Rhowch y **gell** sy'n **dangos** cyfanswm cost y gwyliau. .................................. [1]

*(d)* Rhowch **ddwy** nodwedd fformatio a ddefnyddiwyd yng Nghell F3. [2]

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

*(dd)* Mae'r amrediad celloedd A1:I1 wedi cael eu cyfuno. Enwch unrhyw amrediad celloedd arall sydd hefyd wedi cael ei gyfuno. [1]

..........................................................................................................................

*(e)* Nodwch pa **un** o'r fformiwlâu canlynol a allai gael ei defnyddio i gyfrifo *Cyfanswm Cost Oedolyn* ar gyfer *Gwesty yr wythnos*, sy'n cael ei gynnwys yng nghell D7. [1]

(i) =B7+C7
(ii) =B7*C7

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(f)* Rhowch fformiwla addas i gyfrifo *Cyfanswm Cost Plentyn* ar gyfer *Gwesty yr wythnos*, sy'n cael ei gynnwys yng nghell G7. [1]

....................................................................

*(ff)* Rhowch fformiwla addas i gyfrifo cyfanswm costau *Bws maes awyr* i'r teulu. [1]

....................................................................

*(g)* Rhowch fformiwla addas i gyfrifo *Cyfanswm Cost y Gwyliau* i'r teulu cyfan. [1]

....................................................................


*(ng)* Mae *Cost Oedolyn ar gyfer Yswiriant* yn codi i £130.

(i) Nodwch pa gell y mae angen ei newid â llaw. ............................................ [1]

(ii) Nodwch pa **bum** cell arall a fydd yn ailgyfrifo'n awtomatig. [5]

Cell ........................... Cell ........................... Cell ........................... Cell ........................... Cell ...........................

*(h)* Mae *Teithiau Teg* yn cyflenwi'r graff sydd i'w weld isod fel bod cwsmeriaid yn gallu gweld y tymheredd yn yr Ynysoedd Dedwydd trwy gydol y flwyddyn.




(i) Nodwch y math o graff sy'n cael ei ddefnyddio uchod. ................................................................. [1]

(ii) Rhowch **un** fantais dangos yr wybodaeth hon mewn graff yn hytrach na mewn tabl. [1]

**7.** Mae *Teithiau Teg* yn cadw ar gronfa ddata fanylion am wyliau y maen nhw'n eu cynnig. Isod mae rhan o'r tabl sy'n dangos cynigion arbennig am yr wythnos sy'n dod.

| Cod Gwyliau | Trefnydd Teithiau | Cyrchfan | Dyddiad Ymadael | Gwesty | Pob Pryd Bwyd | Pris Cynhwysol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| H33496 | Travelmate | America | 30/01/06 | Disney | Na | £990 |
| K33508 | Holiday First | America | 30/01/06 | Plaza | Ie | £950 |
| H74997 | Portman | Portiwgal | 01/02/06 | Vilanova | Na | £690 |
| PT14475 | Holiday First | yr Eidal | 03/02/06 | Picelli Plaza | Ie | £690 |
| FC49961 | Our Choice | Goa | 30/01/06 | Nanu | Na | £690 |
| FC87459 | Our Choice | Lanzarote | 01/02/06 | Royal | Ie | £550 |
| D565282 | Our Choice | Sbaen | 03/02/06 | Dunas Hotel | Na | £490 |
| BG68842 | Portman | Cyprus | 31/01/06 | The Sands | Ie | £490 |
| K66974 | Travelmate | Sbaen | 01/02/06 | Sun Club | Na | £450 |
| P66396 | Portman | Sbaen | 03/02/06 | Flamingo | Ie | £380 |
| P21792 | Portman | Cyprus | 01/02/06 | Beach | Ie | £330 |
| S55774 | Our Choice | Cyprus | 01/02/06 | Sea View | Na | £290 |

*(a)* Nodwch nifer y *cofnodion* sydd i'w gweld yn y gronfa ddata hon. .......................................... [1]

*(b)* Rhowch **un** rheswm pam byddai *Teithiau Teg* yn ychwanegu cofnod at y gronfa ddata. [1]

..............................................................................................................................................

*(c)* Nodwch nifer y *meysydd* sydd i'w gweld yn y gronfa ddata hon. .......................................... [1]

*(ch)* Rhowch **ddwy** enghraifft o feysydd addas *eraill* y byddai *Teithiau Teg* am eu hychwanegu at y gronfa ddata wyliau hon efallai. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(d)* Ticiwch **un** blwch i nodi'r ffordd y mae'r gronfa ddata hon wedi ei threfnu *(sorted)*. [1]

☐ Yn esgynnol, yn ôl *Cyrchfan* ac yna *Pris Cynhwysol*

☐ Yn disgynnol, yn ôl *Cyrchfan* ac yna *Pris Cynhwysol*

☐ Yn esgynnol, yn ôl *Pris Cynhwysol* ac yna *Cyrchfan*

☐ Yn disgynnol, yn ôl *Pris Cynhwysol* ac yna *Cyrchfan*

*(dd)* Nodwch y **pedwar** math o ddata a ddefnyddir yn y gronfa ddata hon. [4]

1. ..........................................................................   2. ..........................................................................

3. ..........................................................................   4. ..........................................................................

*(e)* Mae cwsmer eisiau cael gwyliau yng Nghyprus. Ysgrifennwch y maes a'r meini prawf sydd eu hangen i ganfod y cofnodion hyn *yn unig*. [1]

..............................................................................................................................................................................................

*(f)* Mae cwsmer arall eisiau cael gwyliau sy'n costio llai na £500. Cwblhewch y grid isod i ddangos sut byddech chi'n canfod y cofnodion hyn *yn unig*. [3]

| Maes | Gweithredydd Rhesymegol | Meini Prawf |
| --- | --- | --- |
| | | |

*(ff)* Mae cwsmer arall eisiau cael gwyliau yn cynnwys pob pryd bwyd yn Sbaen. Disgrifiwch sut gallai *Teithiau Teg* ganfod y cofnodion hyn *yn unig* yn y gronfa ddata hon. [3]

..............................................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................................

*(g)* Nodwch **ddau** *fath* o ddilysu y gellid eu defnyddio gyda'r maes *Dyddiad Ymadael* er mwyn atal gwallau wrth roi data i mewn. [2]

..............................................................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................................................

*(ng)* Yn ogystal â'r gronfa ddata wyliau sydd i'w gweld gyferbyn, mae gan *Teithiau Teg* gronfa ddata Trefnyddion Teithiau hefyd. Awgrymwch un gronfa ddata *wahanol arall* a all fod gan *Teithiau Teg*. [1]

..............................................................................................................................................................................................

*(h)* Rhowch **ddwy** fantais i *Teithiau Teg* o ddefnyddio cronfa ddata gyfrifiadurol. [2]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**8.** Mae *Teithiau Teg* wedi creu cyflwyniad amlgyfrwng gan ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau ffont, meintiau, clipluniau a thechnegau fformatio i wella eu cyflwyniad.

Rhowch **bedair** nodwedd arall o'r meddalwedd hwn y gallen nhw eu defnyddio, ac ar gyfer **pob un** disgrifiwch, gan ddefnyddio enghraifft, sut bydd hyn yn gwella'r cyflwyniad. 3 x [3]

(i) Nodwedd meddalwedd: ..........

Enghraifft: ..........

Sut mae'n gwella'r cyflwyniad : ..........

..........

..........

(ii) Nodwedd meddalwedd: ..........

Enghraifft: ..........

Sut mae'n gwella'r cyflwyniad : ..........

..........

..........

(iii) Nodwedd meddalwedd: ..........

Enghraifft: ..........

Sut mae'n gwella'r cyflwyniad : ..........

..........

..........

**Wrth ateb y cwestiynau canlynol, dylech gyfeirio at ddogfennau *'Teithiau Teg'* yn yr Atodiad Deunydd Adnoddau.**

**9.** Enwch y **tri** math o ddogfen a roddir yn yr atodiad a nodwch bwrpas **pob** un.

**Dogfen 1**

Enw: .................................................................................................................................... [1]

Pwrpas: ..............................................................................................................................................

.................................................................................................................................................. [1]

**Dogfen 2**

Enw: .................................................................................................................................... [1]

Pwrpas: ..............................................................................................................................................

.................................................................................................................................................. [1]

**Dogfen 3**

Enw: .................................................................................................................................... [1]

Pwrpas: ..............................................................................................................................................

.................................................................................................................................................. [1]

**10.** Mae *Teithiau Teg* yn defnyddio *logo* cwmni ar eu holl ddogfennau busnes. Nodwch bwrpas *logo* cwmni. [1]

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

**11.** *(a)* Enwch **dair** nodwedd fformatio sy'n cael eu defnyddio yn **Nogfen 2 nad** ydynt yn cael eu defnyddio yn **Nogfen 1**. [3]

Nodwedd 1: .........................................................................................................

Nodwedd 2: .........................................................................................................

Nodwedd 3: .........................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Enwch **bedair** nodwedd fformatio sy'n cael eu defnyddio yn **Nogfen 3 nad** ydynt yn cael eu defnyddio yn **Nogfen 1** a **Dogfen 2**. [4]

Nodwedd 1: ..............................................................................................................

Nodwedd 2: ..............................................................................................................

Nodwedd 3: ..............................................................................................................

Nodwedd 4: ..............................................................................................................

(*c*) Ticiwch **un** blwch i nodi pa un o’r gosodiadau *(layouts)* canlynol sydd wedi cael ei ddefnyddio yn **Nogfen 2** a **Dogfen 3**. [1]

☐ Portread

☐ Tirlun

☐ Baner

☐ Gwter

*(d)* Mae *Teithiau Teg* hefyd yn defnyddio *anfonebau* a *theithlenni (itineraries)*. Nodwch bwrpas **pob un**. [2]

Pwrpas anfoneb: ..............................................................................................................

..............................................................................................................

Pwrpas teithlen: ..............................................................................................................

..............................................................................................................

*(dd)* Cwblhewch y grid, gan roi enwau’r dogfennau safonol sy’n cyfateb i’r disgrifiadau a roddir. [4]

| **Disgrifiad o Ddogfen** | **Enw’r ddogfen** |
|---|---|
| Dogfen i gasglu manylion person sy’n gwneud cais i ymuno â chorff i farnu a ydynt yn addas am y swydd. | |
| Caiff ei defnyddio pan nad oes angen llythyr, ond mae’r cwmni eisiau cynnwys nodyn byr a manylion cyswllt. | |
| Patrymlun *(template)* ar gyfer neges lawysgrifen i’w hanfon yn fewnol, (rhwng cydweithwyr neu adrannau) gyda chofnod o bwy sydd wedi anfon y neges, at bwy a phryd. | |

**Parhad yn unig.**

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU | WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd | General Certificate of Secondary Education

631/51-A

**TGAU**

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU GYMHWYSOL**

**(DWYRADD)**

A.M. DYDD MAWRTH, 24 Ionawr 2006

**Deunydd Adnoddau i'w ddefnyddio gyda Chwestiynau 9 i 11.**

**Dogfen 1**

Teithiau Teg

**Tro'r Capel,**
**Rhydydderwen,**
**Caerdydd, CF99 2PG.**

*Gartref neu dramor, mae'r gwyliau i chi gennym ni!*

**Ffôn: 020 189297** **Ffacs: 020 189299**

**www.teithiauteg.co.uk**

**Dogfen 2**

Teithiau Teg

# CYNIGION ARBENNIG MUNUD OLAF!!

| Cyrchfan | Dyddiad ymadael | Pris cynhwysol |
|---|---|---|
| America | 30/01/05 | £990 |
| America | 30/01/05 | £950 |
| Goa | 31/01/05 | £690 |
| Portiwgal | 01/02/05 | £690 |
| Lanzarote | 01/02/05 | £550 |
| Sbaen | 01/02/05 | £450 |
| Sbaen | 03/02/05 | £380 |
| Cyprus | 01/02/05 | £330 |

**A dim ond detholiad yw'r rhain!**

**Dogfen 3**

Teithiau Teg

## Cyfarfod Staff

**<u>Ystafell 412</u>**

**Dydd Mercher 1[af] Chwefror 2006 am 10.00 a.m.**

1. **Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb.**
2. **Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf.**
3. **Materion yn codi.**
4. **Adroddiad y Rheolwr.**
5. **Polisi newydd Iechyd a Diogelwch.**
6. **Adnewyddu'r swyddfa.**
   - **Cyfrifiaduron.**
   - **Cadeiriau (i gydymffurfio â Iechyd a Diogelwch).**
   - **Cysgodlenni.**
7. **Cynigion Arbennig.**
8. **Targedau Staff.**
9. **UFA *(AOB)*.**
10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf.**

**Cyfeiriad Dogfen: TeithiauTeg/MC/401/Ion**